Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# CYNRYCHIOLAETHAU A WNAED MEWN PERTHYNAS AG ARGYMHELLION DROS DRO AR GYFER SIR GADWEDIG GWYNEDD

## Crynodeb o'r Cynrychiolaethau

**Mai 2004**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Crynodeb o'r Cynrychiolaethau a wnaed mewn perthynas ag argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer Sir Gadwedig Gwynedd a gyhoeddwyd ar 5 Ionawr 2004**

## CYMERADWYAETH

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Plaid Geidwadol Cymru | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Gwynedd. |
| 2 | Llafur Cymru | Yn cefnogi pob agwedd ar yr argymhellion dros dro yn llwyr. |
| 3 | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Gwynedd. |
| 4 | Etholaeth Caernarfon y Blaid Lafur | Yn cefnogi cyflwyniad Plaid Lafur Cymru mewn perthynas â Sir Gadwedig Gwynedd. |
| 5 | Ceidwadwyr Conwy | Yn cefnogi'r tair etholaeth arfaethedig ar gyfer Gwynedd am resymau rhesymegol a hanesyddol. |
| 6 | Cyng. H Eifion Jones | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Gwynedd am resymau daearyddol a demograffaidd. Hefyd yn cefnogi Etholaeth newydd Arfon. |
| 7 | Mr D Fox | Yn cefnogi'r cynigion ar gyfer Gwynedd. |
| 8 | Mr Huw P Jones | Yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i etholaethau yng Ngogledd Orllewin Cymru. |
| 9 | Mrs Anne Roberts | Yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer Gwynedd. |

## DIM SYLW

| | | |
|---|---|---|
| 10 | Cyngor Cymuned Llanystumdwy | Nid yw'r Cyngor Cymuned am wneud sylwadau hyd oni chyhoeddir adroddiad Comisiwn Richard. |

## GWRTHWYNEBIAD

| | | |
|---|---|---|
| 11 | Cyngor Gwynedd | Yn gwrthwynebu'r argymhellion ar gyfer Gwynedd gan ei bod yn rhy gynnar i drafod newidiadau i'r etholaethau cyn cyhoeddi adroddiad Comisiwn Richard. |
| 12 | Cyngor Cymuned Aberdaron | Yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig i ffiniau etholaeth Caernarfon. Yn credu y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr a gwasgaredig. Hefyd, y mae cyswllt hanesyddol rhwng ardaloedd Dwyfor ac Arfon. |
| 13 | Cyngor Dinas Bangor | Yn gwrthwynebu'r cynigion mewn perthynas â'r etholaethau presennol ac yn gofyn i'r Comisiwn ystyried cadw'r trefniadau presennol gan nad oes dim yn y cynigion sy'n gorfodi'r Comisiwn i weithredu i'r gwrthwyneb. |
| 14 | Cyngor Cymuned | Yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Gwynedd am resymau |

| | | |
|---|---|---|
| | Beddgelert | hanesyddol. Am gadw'r sefyllfa bresennol. |
| 15 | Cyngor Cymuned Bontnewydd | Yn gwrthwynebu'n gryf, am y rhesymau canlynol: amharu ar gysylltiadau gwleidyddol, symud canolfannau llywodraethol yn bellach i ffwrdd o'r bobl, ac ni ystyriwyd ffordd o fyw a thraddodiadau'r ardaloedd lleol. |
| 16 | Cyngor Cymuned Buan | Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Gaernarfon gan y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr a lletchwith, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth â Chaernarfon ac nid Dolgellau ac mae'r cyrff sifil wedi eu sefydlu ar sail Arfon/Dwyfor. |
| 17 | Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon | Yn gwrthwynebu ar sail colli hunaniaeth hanesyddol a chymelliad cudd canfyddedig ar ran y Llywodraeth. Yn credu bod yr adolygiad yn "fait accompli". |
| 18 | Cyngor Tref Criccieth | Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Gaernarfon gan y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr a lletchwith, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth â Chaernarfon ac nid Dolgellau ac mae'r cyrff sifil wedi eu sefydlu ar sail Arfon/Dwyfor. |
| 19 | Cyngor Cymuned Dolbenmaen | Yn gwrthwynebu'r cynigion sy'n effeithio ar etholaeth Caernarfon. |
| 20 | Cyngor Cymuned Llanbedrog | Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Gaernarfon gan y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr a lletchwith, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth â Chaernarfon ac nid Dolgellau ac mae'r cyrff sifil wedi eu sefydlu ar sail Arfon/Dwyfor. |
| 21 | Cyngor Cymuned Llanberis | Yn gwrthwynebu'r cynigion mewn perthynas â Chaernarfon am resymau hanesyddol ac oherwydd y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr. |
| 22 | Cyngor Cymuned Llanddeiniolen | Yn gwrthwynebu rhannu sedd bresennol Caernarfon ac yn credu y bydd y cydbwysedd rhwng ardaloedd diwydiannol a chefn gwlad yn cael eu heffeithio gan y cynigion. |
| 23 | Cyngor Cymuned Llandwrog | Yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Gwynedd am resymau hanesyddol a democrataidd ac oherwydd diffyg cysylltiadau rhwng Penrhyn Llŷn a Meirionnydd, yn enwedig cysylltiadau trafnidiaeth da. |
| 24 | Cyngor Cymdeithas Llanengan | Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu ar y sail nad oes cyswllt naturiol rhwng yr ardal arfaethedig i'w hymgorffori yn y Dwyfor/Meirionnydd newydd, ac yn gofyn i'r Comisiwn ystyried cadw'r ffiniau fel y maent ar hyn o bryd. |
| 25 | Cyngor Cymuned Llanllyfni | Mae'r cynigion yn achosi pryder mawr gan fod canol yr etholaeth yn debygol o gael ei symud o Gaernarfon i Fangor sy'n destun pryder i ardaloedd cefn gwlad. Rydym yn credu y byddai ail-ffurfio'r hen Sir Gaernarfon yn well yn ddaearyddol. |
| 26 | Cyngor Cymuned Llannor | Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i Gaernarfon gan y byddai'r etholaeth newydd yn rhy fawr a lletchwith, mae'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cysylltiadau trafnidiaeth â Chaernarfon ac nid Dolgellau ac mae'r cyrff sifil wedi eu sefydlu ar sail Arfon/Dwyfor. |
| 27 | Cyngor Cymuned Llanwnda | Siroedd Caernarfon a Dwyfor wedi cydweithio'n eithriadol o dda, ond nid yw'r cydweithio wedi bod gystal rhwng Bangor a Chaernarfon. Yn credu y byddai uno'r ddwy dref mewn un etholaeth yn gamgymeriad. |
| 28 | Cyngor Tref Porthmadog | Mae Cyngor Tref Porthmadog yn gwrthwynebu uno Dwyfor a Meirionnydd gan y byddai'r etholaeth yn rhy fawr. Am gadw'r sefyllfa bresennol. |
| 29 | Cyngor Tref Pwllheli | Yn gwrthwynebu oherwydd y byddai'r Meirionnydd-Dwyfor arfaethedig yn rhy fawr ac yn rhy anhyblyg i'w gweinyddu a'I gwasanaethu'n wleidyddol. |
| 30 | Plaid Cymru | Yn credu y byddai'r cynigion yn lleihau rhanbarth Canolbarth/Gorllewin Cymru. Yn awgrymu cynnwys Clwyd a Gwynedd mewn un rhanbarth yn hytrach na rhannu Etholaeth bresennol Caernarfon. |
| 31 | Democratiaid Rhyddfrydol Caernarfon | Yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Gwynedd am resymau hanesyddol, gwleidyddol a daearyddol. Ni ddylid gwahanu Arfon a Dwyfor. Byddai Dwyfor Meirionnydd yn rhy fawr, yn anymarferol ac yn llai democrataidd. Am gadw'r sefyllfa bresennol. |
| 32 | Etholaeth Caernarfon Plaid Cymru | Yn credu nad oes angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd, yn nwedig cyn cyhoeddi adroddiad Comisiwn Richard. |
| 33 | Plaid Cymru Cangen Llannor | Yn gwrthwynebu ar sail torri'r cysylltiadau hanesyddol a bod etholaeth newydd arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn anymarferol o ran maint. Hefyd yn cyfeirio at Gomisiwn Richard a'r angen i aros am ei ganfyddiadau. |
| 34 | Plaid Cymru Cangen Pwllheli | Yn credu y byddai'r sedd arfaethedig Dwyfor Meirionnydd yn rhy fawr i wasanaethu'n wleidyddol, ac nid yw'n gweld unrhyw gysylltiadau naturiol rhwng y ddwy ardal. Yn galw am ymchwiliad cyhoeddus. |
| 35 | Mrs Betty Williams AS | Yn credu y dylid ystyried Clwyd a Gwynedd gyda'i gilydd er mwyn cyflawni cydraddoldeb etholiadol rhwng etholaethau. |
| 36 | Cyng. Charles Ellis LL.B | Yn amgau deiseb wedi'i harwyddo gan 127 o bobl. Yn gwrthwynebu'r cynigion ac yn mynnu ymchwiliad lleol. |
| 37 | Cyng. P A Williams | Yn gwrthwynebu cynnwys Bangor yn Etholaeth newydd arfaethedig "Arfon" gan ei fod yn ofni y bydd llais democrataidd ei etholwyr yn cael ei "boddi" gan weddill yr etholaeth arfaethedig newydd. |
| 38 | Parch a Mrs L O Arridge | Yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Bangor gan fod ganddi fwy yn gyffredin â Chonwy a threfi bach eraill yn yr etholaeth bresennol nag sydd ganddi ag ardaloedd cefn gwlad fel Y Felinheli |

| | | |
|---|---|---|
| | | etc. Am gadw'r sefyllfa bresennol. |
| 39 | Mr Gwyn Bere | Yn gwrthwynebu torri'r cyswllt naturiol rhwng Pwllheli a Chaernarfon, a chysylltu Pwllheli ag Aberdyfi, a fyddai'n golygu pellter teithio enfawr. Yn gwrthwynebu newid er mwyn newid. |
| 40 | Mr Myrddin ap Dafydd | Yn gwrthwynebu ar sail torri cysylltiadau hanesyddol ac anymarferoldeb maint etholaeth arfaethedig newydd Dwyfor Meirionnydd. Hefyd yn cyfeirio at Comisiwn Richard a'r angen I aros am ei ganfyddiadau. |
| 41 | Mr Meirion Lloyd Davies | Yn anghymeradwyo'r cynigion ar sail maint yr etholaeth arfaethedig newydd a chan nad oes unrhyw gysylltiad hanesyddol o fewn yr ardaloedd hynny. |
| 42 | Mr P M Ellis | Yn gwrthwynebu'r argymhellion i newid ffiniau Etholaeth Caernarfon gan ei fod yn credu nad yw'r bwriad i uno Dwyfor a Meirionnydd yn ymarferol, gan y byddai'n rhy bell i bobl i deithio i weld eu AC/AS. |
| 43 | Mr Ieuan Evans | Byddai'n well ganddo pe bai etholaeth bresennol Caernarfon yn aros fel y mae ar hyn o bryd, gan ei bod yn cynnig adlewyrchiad gwirioneddol o drigolion De Arfon, Eifionydd a Llŷn. |
| 44 | Mr Patrick K Fields | Yn argymell y dylid ymgorffori Bangor yn Etholaeth Caernarfon er mwyn cadw cysylltiadau daearegol a hanesyddol hirsefydlog Caernarfon. |
| 45 | Mr H B Hodgson | Yn gwrthwynebu 'adeiladu artiffisial' etholaeth Dwyfor Meirionnydd am resymau ymarferol a hanesyddol. Yn awgrymu ymgorffori Bangor yng Nghaernarfon. Yn pryderu y bydd rhannu Caernarfon yn magu difaterwch ymhlith etholwyr. |
| 46 | Mr S B Hodgson | Yn gwrthwynebu 'adeiladu artiffisial' etholaeth Dwyfor Meirionnydd am resymau ymarferol a hanesyddol. Yn awgrymu ymgorffori Bangor yng Nghaernarfon. Yn pryderu y bydd rhannu Caernarfon yn magu difaterwch ymhlith etholwyr. |
| 47 | Mr Graham Hulse | Yn gwrthwynebu'r etholaethau newydd afaethedig gan ddatgan y byddai cydweddu ffiniau etholaeth ac awdurdod lleol yn sicrhau gwell cyfathrebu rhwng ardaloed a chyrff datganoledig. |
| 48 | Mr Gwyn Jones | Yn gwrthwynebu'r cynnig i uno Dwyfor ac Eifionydd yn etholaeth Meirionnydd-Nantconwy am resymau ymarferol a chan nad oes unrhyw gysylltiadau naturiol. Hefyd, yn pryderu y byddai'r AS etholedig yn rhy bell o lawer o bobl yn yr etholaeth fwy. |
| 49 | Mr Gareth G Jones | Yn argymell y dylid ymgorffori Bangor yn Etholaeth Caernarfon er mwyn cadw cysylltiadau daearegol a hanesyddol hirsefydlog Caernarfon. |
| 50 | Mr a Mrs Victor a Christine Jones | Yn datgan gwrthwynebiad llwyr i'r cynigion i ad-drefnu'r etholaethau, ac y dylai'r ardal aros yng Ngogledd Cymru ac nid yng Nghanolbarth Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 51 | Miss Mair Jones | Yn credu os oes angen unrhyw newid, yna dylid ychwanegu Bangor a Dyffryn Ogwen at Etholaeth Caernarfon. Hefyd yn credo y dylid aros am ganlyniadau Comisiwn Richard. |
| 52 | Miss Olwen Jones | Yn gwrthwynebu'r cynigion gan ei bod yn credu y byddai'n gwneud llanastr llwyr o'r system etholiadol gyfan. |
| 53 | Mr Leslie Larsen | Yn gwrthwynebu'r cynnig gan nad oes unrhyw gyswllt naturiol rhwng Bangor a Chaernarfon/Dwyfor naill ai yn ddiwylliannol neu'n ieithyddol. |
| 54 | Mr Maldwyn Lewis | Yn gwrthwynebu ar sail cysylltiadau hanesyddol ac anymarferoldeb maint etholaeth arfaethedig Dwyfor Meirionnydd. |
| 55 | Ms Catherine Llewellyn Morris | Yn credu y byddai'r cynigion ar gyfer etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn golygu y byddai'n ardal rhy fawr i gynrychiolwyr yr etholaeth i'w gwasanaethu'n effeithiol. |
| 56 | Mr A N Oliver | Yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer Bangor. Eisiau i Fangor fod yn rhan o Gonwy a'i gadw draw o Gaernarfon. |
| 57 | Miss R Parry | Yn argymell y dylid ymgorffori Bangor yn Etholaeth Caernarfon er mwyn cadw cysylltiadau daearegol a hanesyddol hirsefydlog Caernarfon. |
| 58 | Preswylydd o Bwllheli | Yn gwrthwynebu'r cynigion gan nad yw Meirionydd yn rhan o Arfon/Dwyfor, ac yn credu y byddai etholwyr yn tueddu'n naturiol at Gaernarfon ac nid Dolgellau. Nid yw'n hoffi newid er mwyn newid. |
| 59 | Mr F A Raouf | Yn credu os oes angen unrhyw newid, yna dylid ychwanegu Bangor a Dyffryn Ogwen at Etholaeth Caernarfon. Hefyd yn credu dylid aros am ganlyniadau Comisiwn Richard. |
| 60 | Ms Alison Raouf | Yn credu os oes angen unrhyw newid, yna dylid ychwanegu Bangor a Dyffryn Ogwen at Etholaeth Caernarfon. Hefyd yn credo y dylidaros am ganlyniadau Comisiwn Richard. |
| 61 | Ms S A Raouf | Yn credu os oes angen unrhyw newid, yna dylid ychwanegu Bangor a Dyffryn Ogwen at Etholaeth Caernarfon. Hefyd yn credo y dylid aros am ganlyniadau Comisiwn Richard. |
| 62 | Mrs D A Raouf | Yn credu os oes angen unrhyw newid, yna dylid ychwanegu Bangor a Dyffryn Ogwen at Etholaeth Caernarfon. Hefyd yn credo y dylidaros am ganlyniadau Comisiwn Richard. |
| 63 | Mr Ioan Roberts | Yn credu bod y cynigion yn gwrthddweud yn llwyr traddodiad, dymuniadau ac arfer yr ardal, a dylid eu dileu ar unwaith. |
| 64 | Mr V T Russell-Rudge | Yn argymell y dylid ymgorffori Bangor yn Etholaeth Caernarfon er mwyn cadw cysylltiadau daearegol a hanesyddol hirsefydlog Caernarfon. |

| | | |
|---|---|---|
| 65 | Mrs S K Russell-Rudge | Yn argymell y dylid ymgorffori Bangor yn Etholaeth Caernarfon er mwyn cadw cysylltiadau daearegol a hanesyddol hirsefydlog Caernarfon. |
| 66 | Mrs Jean M Snow | Yn gwrthwynebu'r cynigion parthed: Penrhyn Llŷn am resymau ymarferol a hanesyddol. Yn awgrymu y dylid ymgorffori Bangor yn Etholaeth Caernarfon oherwydd cysylltiadau daearyddol a hanesyddol hirsefydlog Caernarfon. Yn meddwl y byddai rhannu etholwyr Caernarfon yn creu difaterwch. |
| 67 | Mr Clive Stephenson | Yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig ym Mangor am resymau cymdeithasol, hanesyddol a gwleidyddol. Yn credu bod gan Fangor mwy yn gyffredin â Chonwy a Llandudno na chyda Caernarfon. |
| 68 | Mrs Ifanwy Williams | Yn gwrthwynebu cynnal adolygiad yn awr, ac efallai y dylid cynnal adolygiad arall wedi cyhoeddi canfyddiadau Comisiwn Richard. |
| 69 | Mr & Mrs Alan & Ros Williams | Yn gwrthwynebu ar sail torri cysylltiadau hanesyddol ac yn anymarferoldeb maint etholaeth arfaethedig newydd Dwyfor Meirionnydd. Hefyd yn cyfeirio at Comisiwn Richard a'r angen I aros am ei ganfyddiadau. |
| 70 | Mr a Ms Gareth Hughes Jones a Dyddgu Mair Williams | Yn gwrthwynebu ar sail torri cysylltiadau hanesyddol ac yn anymarferoldeb maint etholaeth arfaethedig newydd Dwyfor Meirionnydd. Hefyd yn cyfeirio at Comisiwn Richard a'r angen I aros am ei ganfyddiadau. |
| 71 | Mr a Mrs Peredur a ManonWilliams | Yn gwrthwynebu ar sail torri cysylltiadau hanesyddol ac yn anymarferoldeb o faint etholaeth arfaethedig newydd Dwyfor Meirionnydd. Hefyd yn cyfeirio at Comisiwn Richard a'r angen I aros am ei ganfyddiadau. |
| 72 | Mr Liam Pennington | Yn awgrymu mai Etholaeth Sirol Dwyfor Meirionnydd a Phen Llyn ddylai fod enw newydd y sedd. |

Mae'r prif wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro mewn perthynas ag etholaethau arfaethedig Arfon a Dwyfor Meirionnydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau yn awgrymu y dylid cadw'r sefyllfa bresennol. Mae nifer llai o gynrychiolaethau wedi awgrymu y dylid cynnwys ardal Bangor o fewn etholaeth bresennol Caernarfon. Cafwyd gwrthwynebiadau i'r newid arfaethedig i Ranbarthau Etholiadol y Cynulliad, sef Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru. Awgrymodd nifer o gynrychiolaethau hefyd y dylai'r comisiwn aros hyd nes y cyhoeddir adroddiad Comisiwn Richard.

| | Cynrychiolaethau | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cymeradwyaeth | 1 - 9 | 9 |
| Gwrthwynebiad – sefyllfa bresennol | 12 – 24, 26 – 43, 48, 50, 52 – 56, 58, 63, 69 - 71 | 40 |
| Gwrthwynebiad - Bangor | 25, 44 – 47, 49, 51, 57, 59 – 62, 64 – 66, 67 | 12 |
| Gwrthwynebiad – Rhanbarth y Cynulliad | 30, 50 | 2 |
| Comisiwn Richard | 10, 11, 32, 33, 40, 51, 59, 60, 61, 62, 68 - 71 | 14 |
| Enw Etholaeth | 72 | 1 |

Tŷ Caradog , 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd CF10 3BE
Caradog House, 1-6 St Andrew's Place, Cardiff CF10 3BE
☎ (029) 2039 5031 Fax/Ffacs (029) 2039 5250
e-mail: bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk / e-bost : comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Web Site: www.bcomm-wales.gov.uk Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk